

PERTHYN

Rhagfyr 2025/ Ionawr 2026

Rhifyn 343



Nadolig ym Methlehem

“Oni fu felly eni?
Oni fu felly oleuni?

Gwyn Thomas – Nadolig 1966

Gair gan Eifion



Tra'n didoli pethau mam dargafnyddais rhywbeth nad oeddwn wedi eu gweld ers blynnyddoedd , 'Pifco Christmas Tree Lights', goleuadau Nadolig siap lanterau bach. Un fel yna oedd mam, cadw pob peth a'r weithred o ddal gafael yn un seicolegol wrth i fywyd perosnol, teuluol newid ynghyd â ffordd o fyw. Ar un o silffoedd y stydi mae gen i bot jam yn llawn fferins 'chocolate covered raisins' a label yn ysgrifenedig mam, 'Pick and Mix o Woolworth Pwllheli 2009, pan oedd yn cau' a gallaf ddychmygu bod y goleuadau wedi dod o'r un lle !

'Does yna ddim byd sentimentalaidd yn perthyn i mi ac eto dwi wedi cadw'r goleuadau gyda'r gobaith o'u hadnewyddu rhywbryd. Gweithred naturiol sy'n pontio'r presennol gyda gorffennol a'r dyhead yna i ddal gafael yn ein ddoe, yn gyffredinol ac yn benodol ac mae cyfnod y Nadolig yn un o'r adegau, digwyddiadau hynny. Nadoligau ddoe yn llawn rhamant a'r teimlad, teimladau braf hynny sy'n prinhaus wrth fynd yn hŷn, neu efallai ddim ! Bob tro y byddai'n meddwl am gyfnod y Nadolig ym Mhenprys fy mhlentynod fe fyddai'n meddwl am werth pethau syml ac yn eu plith twrci fyddai'n coginio tros nos yn y popty fyddai'n cael ei gynhesu gan y tân agored oedd yn yr ystafell fyw. Dyma oedd unig ffynhonnell cynhesu dŵr, a'r ystafell fyw fyddai'r unig ystafell gynnes yn y tŷ, ond Noswyl Nadolig fe fyddai mam yn defnyddio'r popty i goginio'r twrci, a sôn am ogla da ! Deffro yn y bore yn llawn cynnwrf ac arogl twrci yn llenwi'r tŷ ! Efallai mai'r hyn sy'n ymddangos yn ddeniadol oedd y symylrwydd, a gyda'r symylrwydd, gwerthfawrogiad, a bod yna berygl mewn byd modern, moethus i hyny fynd ar goll.

Ydi hi'n iawn dweud y gall rhywbeth mor syml a goleuadau fod yn ffocws i'r un teimladau. Mae'r siopau yn llawn goleuadau'r Nadolig

ynghyd â ambell hysbyseb, a'r awrgym eu bod yn creu nawws braf a breuddwydiol. Mae yna siop yn Aberystwyth yn llawn addurniadau Nadolig ar hyn o bryd ac fe ges fy nenu yr wythnos o'r blaen i brynu eglwys fach a golau ynddi. Mae'r eglwys honno yn cael ei goleuo ac yn rhyw fath o gysur i'r un sy'n edrych arni wedi iddi dywyllu. Rhywbeth naturiol yn troi yn rhywbeth symbolaidd wrth i'r dydd fyrhau a'r nosweithiau fynd yn hirach.

Yn y cyfnod cyn-Gristnogol bu gwledydd, gan gynnwys ein gwlad ein hunain, yn ymateb i'r cyfnod yma, yn ddathliad ac yn arferion, a'r themau tywyllwch a goleuni yn ganolog i'r cyfan. Dyhaed am weld y gaeaf tywyll, oer yn mynd heibio a'r gwanwyn yn gwawrio ac efallai tipyn bach o hynny sydd yn yr arfer yma, arfer trwy'r flwyddyn ar ambell aelwyd o addurno cartref gyda ychydig o oleuadau, rhyw 'ambiance' all godi calon, ac yn meddwl ambell un, rhoi bod i obaith mewn byd a bywyd sy'n ymddangos mor dywyll ar adegau !

A hithau'n gyfnod yr Adfent, a'r Nadolig ar y gorwel, onid dyma'r union thema mae Ioan yn gydied ynddo ynghyd â'r Eglwys Fore, wrth geisio cyfleu genedigaeth a bywyd yr Iesu. Y goleuni yna sydd o Dduw, a ddaeth i ganol byd, ddoe a heddiw, a thrwy ei farwolaeth a grym ei atgyfodiad, sy'n gallu trawsnewid bywyd, gan roi bod i ddechrau newydd a ffordd newydd o fyw.

Dwi'n hoff iawn o eiriau Ioan wrth iddo geisio cyfleu y ddealltwriaeth o ymgawdoliad ar ddechrau ei Efengyl –Ioan 1 : 4–5

‘Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.’

Yn ystod yr Adfent gadewch i ni fyfyrion ar y ddealltwriaeth yna, myfyrdod fydd yn arwain at wir ddathliad y Nadolig a'r ddealltwriaeth fod yr Iesu yn dal i gael ei eni i'n plith, yn fywyd ac yn obaith, yn dal i fygwth unrhyw ffyrdd ar dywyllwch ac yn dal i fod yn 'dywysog heddwch' a gobaith. Dathlwn y Nadolig unwaith yn rhagor ac edrychwn ymlaen i flwyddyn newydd!


Eifion.

Newyddion Perthyn Rhagfyr

Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Ann Hill, Mair Hughes ac Arwyn Roderick a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at yr aelodau sydd wedi derbyn triniaeth ddydd a'r rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal neu yn eu cartrefi eu hunain.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Wyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn y Ganolfan Chwaraeon, Ysgol Penweddig a'r Ysgol Gymraeg ac i bawb fu'n ymwneud â'r trefniadau o dan gadeiryddiaeth Arwel Rocet. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafodd aelodau Côr Pantycelyn ddeugain mlynedd yn ôl gyfle i dalu teyrnged i Bethan Bryn trwy ail-ffurfio i ganu gosodiad o'r cyfnod hwnnw ac i ddiolch iddi am eu hyfforddiant a'i chefnogaeth. Adleisiwyd y gwerthfarwogiad o gyfraniad arbennig Bethan gan y gynulleidfa gyfan.



Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Nia Henson ar farwolaeth ei chwaer, sef Margaret Evans, Aberdesach ym Mhenrhyn Llyn a modryb i Gwydion.

Cydymdeimlwn hefyd â Ellen Llwyd-Evans a Huw Evans ar farwolaeth nai i Ellen, sef Sion Aled Jones, Caerffili - mab i Emyr a Patricia a brawd i Hannah.

Cydymdeimlwn hefyd â Alun a Mary Morris ar farwolaeth chwaer Alun, sef Mrs. Glenys Roberts, Caernarfon a modryb i Lowri, Iwan ac Angharad.

Llongyfarchiadau

Bu nifer o blant yr eglwys yn actio a chefnogi y sioe Annie yn Ysgol Penweddig. Llongyfarchiadau iddynt oll, roedd yn berfformiad i'w gofio.

Rhestr Blodau 2026

Diolch yn fawr i Hywel Cynwyd am baratoi Rhestr Blodau 2026 ar gyfer y cyntedd. Mae cyfle i chi roi eich enw i roi blodau neu i gyfrannu at elusen. Diolch yn fawr am eich rhoddion a'ch cyfraniadau yn ystod 2025.

Newyddion Ebeneser



Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi. Mae'n dda gennym ddeall fod Susan Hughes wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn yr ysbyty ac anfonwn ein cofion cynhesaf ati.

Dymunwn Nadolig a Blwyddyn Newydd yn llawn bendithion i bob un ohonoch.

Gwasanaethau mis Rhagfyr a Ionawr

Rhagfyr 7	Gwasanaeth Cymun am 2.15. o'r gloch
Rhagfyr 21	Gwasanaeth Nadolig yn Ebeneser am 2.15. o'r gloch
Ionawr 4	Gwasanaeth Cymun am 2.15. o'r gloch
Ionawr 18	Gwasanaeth am 2.15.

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad y Gweinidog Y Parchedig Eifion Roberts.

Mis ym Mhatagonia ... a cherdded yn Fietnam

Ers ymweld â'r Ariannin am y tro cyntaf, dros 40 o flynyddoedd yn ôl, rwy' wedi cael ymdeimlad cryf o berthyn. Wedi teimlo'n gartrefol



ynghanol teulu a ffrindiau, teimlo cariad at y wlad a'i phobl, a chael hiraeth ofnadwy pan fo'r pellter yn ein gwahanu. Rwy' wedi ceisio dychwelyd mor aml â phosibl dros y blynyddoedd, ac mae'r plant, Erin ac Owain, yn teimlo'r un ymlyniad at y wlad. Ond roedd ein taith i Batagonia eleni yn un

arbennig gan mai dyma'r cyfle cyntaf i'm tair nith, sef Eira a Gwennan (merched Geraint) a Sara (merch Camwy) ymweld â'u teulu yno.

O fewn 24 awr i lanio, roedd Erin, Eira a fi ar lwyfan Eisteddfod Chubut, yn Neuadd Dewi Sant, Trelew yn barod i ganu gyda'r Côr Teulu. "Edrych" medde fi wrth Eira. "Mae PAWB sydd ar y llwyfan yn perthyn i ti!" Er nad oedd hi'n adnabod fawr neb eto, nac hyd yn oed wedi cael cyfle i gyfwyno'i hun yn iawn ar wahân i ambell goflaid sydyn a sws, rwy'n gwybod i Eira gael yr un teimlad gwerthfawr o berthyn ar y foment honno, wrth gyd-ganu gyda'i theulu estynedig.

Dros yr wythnosau dilynol, cefais gyfle i weld y Wladfa drwy lygaid newydd y merched. Eu cyflwyno i ffrindiau hen a newydd, er mwyn iddyn nhw roi wynebaw i enwau roedden nhw wedi clywed cymaint o sôn amdanynt dros y blynyddoedd. Edrych ar hen luniau (a sleidiau!!) ac adrodd straeon am Dad ac Edith yn blant, ac am Nain a Taid. Rhoi gwersi hanes iddyn nhw am yr hen Wladfawyr, gan geisio cofio'r straeon roedd Dad wedi'u dweud wrtha i dros y blynyddoedd. A'r

cerrig milltir teuluol rydyn ni'n colli cymaint ohonynt oherwydd y pellter - cyfle i gefnogi Elin, Seren ac Alaw, merched bach fy nghefnder, Hector wrth iddynt ddawnsio mewn sioe Flamenco a pherfformio ar y delyn.

Cafwyd cyfle i wneud y pethau twristaidd hefyd wrth gwrs - mynd i weld y Pengwinod a'r Morfilod, chwilio am ffosiliau ym Mryngwyn a gweld deinosor mwyaf y byd yn yr amgueddfa yn Nhrelew. Crwydro Porth Madryn a chroesi'r paith i'r Andes. Ac roedd yn rhaid mynd â nhw i'r tŷ te gorau, Tŷ Gwyn!

Mae'r mis diwethaf wedi hedfan heibio, ac roedd yn anodd iawn ffarwelio â'r teulu a throi am adre heb wybod pryd fyddwn ni'n gallu cwrdd eto. Ond rwy'n gwybod bod yr hiraeth mae'r merched eisoes yn ei deimlo yn arwydd o'r cwlwm o berthyn sydd nawr wedi cydio yn eu calonnau nhw hefyd. Hasta luego bawb, tan toc!

Wrth i fi gyrraedd adre, rwy'n croesi Morys yn y drws i bob pwrpas wrth iddo baratoi i fynd ar daith gerdded noddedig....

Ym mis Ionawr 2023 cafodd un o ffrindiau pennaf Morys, Shaun Richards, ddiagnosis o ganser y pen a'r gwddf. Ar ôl cael llawdriniaeth ynghyd â 30 sesiwn o cemotherapi a 6 sesiwn o radiotherapi, a diolch i ymdrechion diflino cynifer o bobl yn y Gwasanaeth Iechyd, cafodd Shaun wybod fod ei sgan yn glir.



Efallai i rai ohonoch weld rhaglen y comediwr, Rhod Gilbert ar Channel 4 - A Pain in the Neck - yn sôn am ei brofiadau tebyg iawn i Shaun, gyda'r un canser yn yr un cyfnod. Ar ddiwedd y rhaglen roedd hysbyseb am daith gerdded elusennol yn Fietnam, i godi arian i Ganolfan Ganser Felindre. Penderfynodd Morys a Shaun gofrestru ar gyfer y daith honno - ac ar ôl tua dwy flynedd o ymarfer a pharatoi a chodi arian, mae'r amser wedi dod i fynd amdani!



Bydd Morys a Shaun yn ymuno â chriw o tua deugain o bobl, dan arweiniad Rhod Gilbert, a bywydau pob un wedi'u cyffwrdd gan ganser mewn rhyw ffordd neu gilydd. Byddan nhw'n Hedfan i Hanoi cyn dechrau ar yr her go iawn. Chwe diwrnod o 'trek' am hyd at ddeg awr y dydd, yn ardaloedd Hoa Binh a Pu Luong yng ngogledd y wlad, gan basio drwy tirweddau amrywiol, o fforestydd bambw i gaeau reis. Yn ystod y daith bydd y criw yn cael eu prydau bwyd ac yn aros dros nos mewn cartrefi lleol, ac yn cwrdd â rhai

o grwpiau ethnig lleiafrifol y wlad, gan gynnwys cymunedau Thai, Hmong, Muong a Dao.

Mae tudalen Just Giving Morys yn dal i dderbyn cyfraniadau - bydd pob ceiniog sy'n cael ei gyfrannu yn mynd i gefnogi pobl sy'n dioddef o ganser, a'u teuluoedd. Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma, a phob lwc i Morys a Shaun ar eu taith!

<https://www.justgiving.com/fundraising/tudalen-codi-arian-morys-fundraising-pao>

Meleri MacDonald

Cymdeithas y Morfa

Nos Lun, 3 Tachwedd

Gweision fferm Ceredigion a Sir Gaerfyrddin oedd pwnc Tegwen Morris ein siaradwraig wadd ar fyr rybudd ar nos Lun, 3 Tachwedd. Swyngyfareddwyd Tegwen â hanesion ac arferion y gweision wedi iddi roi galwad am ymateb i gysylltu â nhw ar y radio dros 30 mlynedd yn ôl er mwyn cwblhau ei gradd uwch. Yn dilyn yr ymateb brwd a gafwyd i'r alwad roedd dros 70 o weision fferm rhwng 97 ac 17 oed wedi cysylltu â hi. Drwy gyfrwng y



cyfweliadau niferus roedd Tegwen wedi cael darlun o gyfnod a chymdeithas, gwasanaeth a thraddodiadau'r gweision a llwyddodd i adrodd yr wybodaeth yr oedd wedi'i gasglu mewn ffordd ddifyr ac addysgiadol. Mae'r eirfa ddefnyddiwyd gan y gweision hyn yn prinhau a phenillion fel hwn yn mynd yn angof:

Saith o'r gloch cawl ar tân

Wyth o'r gloch swperu

Naw o'r gloch edrych y da

A deg o'r gloch i'r gwely.

Cafwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni Tegwen a diolchwyd iddi gan Gwynfor – a nododd fod ei dad yntau yn was fferm ac roedd yn gallu cytuno â'r sylwadau am fywyd y gweision fferm. Diolchwyd i Tegwen am newid

Sesiynau nesaf y Gymdeithas

Nos Lun, 8 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch – Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Triawd Rhydlwyd

5 Ionawr am 7.00 o'r gloch – Cwis yng ngofal Robin Huw Bowen

19 Ionawr 7.00 o'r gloch – Crwth, Caneuon a Ffydd – Cass Meurig

Penglog, cadair, cloch a mwy!

Ry'n ni'n byw ym merw oes dechnegol ac mae pob math o declynnau a deallusrwydd artiffisial i fod i hwyluso'n bywyd o ddydd i ddydd ond yn amlach na pheidio yr hyn ry'n ni'n fwyaf diolchgar amdanynt yw teclynnau a chreiriau bore oes – pethau sy'n aml yn gysylltiedig ag atgofion ry'n yn eu trysori. Fe ddaeth hyn i'r amlwg yng nghyfarfod diweddaraf Cymdeithas y Morfa nos Lun, 17 Tachwedd wrth i nifer ddod â chrair neu lun sy'n dwyn atgof arbennig a thrwy hynny roedd yna gyfle i ddod i adnabod ein gilydd yn well.



Lwmpyn o lo oedd gan Hugh Owen a'r glo, wrth gwrs, yn ei atgoffa o gymuned lofaol golledig ardal Cross Hands a throsol ac offer chwarelyddol oedd gan yr Huw arall – Huw Chambers wrth iddo yntau hel atgofion am gysylltiad teulu ei dad â chwarel Dinorwig. Darn o waith llythrennu ei dad Ifor Owen oedd trysor ei fab Gareth Owen ac hen greiriau go nodedig o gartref ei ddiweddar wraig Erina yng Ngwytherin oedd gan Alun Morris sef teclyn i ddal kannwyll frwyn a pheiriant cwicio.

Yn amlwg mae cerddoriaeth yng ngwaed Mary Jones Morris a mor hyfryd oedd gweld llun o'i mam yn cyfeilio i gôr buddugol Ysgol Llanbadarn mewn Eisteddfod Genedlaethol yn y 1930au. Yn rhodd am ei gwaith derbyniodd gwpan arian, a flynyddoedd yn ddiweddarach



derbyniodd Mary fwg yn diolch iddi hithau am gyfeilio i ddisgyblion yr Ysgol Gymraeg. Plât cain gan Lowri Davies oedd trysor Dr Sara Williams ac un o'r lluniau arno oedd Capel y Morfa – hynny yn atgof melys o briodas Sara a'i gŵr sydd, fel y clywsom, yn hynod o ofalus a meddylgar wrth ddewis anrhegion.

Ry'n ni gyd yn gwybod am amrywiol dalentau Rhidian Griffiths ond dwi ddim yn credu bod yr un ohonom yn ymwybodol ei fod yn fardd. Ef enillodd cadair eisteddfod ysgolion Abertawe yn 1969 – eisteddfod i nodi'r arwisgo a

theg dweud, efallai, nad oedd Rhidian mor falch â hynny o'r gadair fechan ond roedd yr hanes yn ddiddorol. Difyr hefyd oedd hanes taith Dewi Hughes i Batagonia gyda Meibion Menlli yn 1978 a'r cyfan yn dod yn ôl yn fyw iddo drwy gyfarpar yfed te Mate.

Go brin y disgwylicch bod llun Fictoraidd o ferch fach deirblwydd mewn ffrog wen satin, menig les a boned yn hongian ar un o furiau Gwerfyl Pierce Jones ym Mhenrhyn-coch ond mae 'na hanes diddorol i'r llun 'Quite Ready' gan Philip Richard Morris. Roedd yn lun poblogaidd iawn ac fe gafodd lluniau print o'r ferch eu dosbarthu yn helaeth ond pam ei fod yn bwysig i Gwerfyl? Wel am fod y ferch fach sef 'Nansi bach' yn gyfnither i'w mam ond y tristwch yw y bu farw cyn ei phen-blwydd yn bump o'r ferch goch. Digwydd bod yn treulio cyfnod gyda modryb iddi ym Methesda oedd Nansi pan ddaeth yr arlunydd heibio ac nid oedd ei Mam gallach bod yr arlunydd wedi bod a dyna sioc a gafodd pan welodd lun o'i hannwyl ferch, a oedd bellach wedi marw, ar wal ym Mrynau yn Llangoed. Hanes difyr ddaeth â deigrin i'r llygad.



Mae ‘na ddau beth ar ôl – penglog a chloch. Dyw Robin Huw Bowen ddim fel arfer yn dod â dim yn ôl o’i deithiau gan ei fod yn gorfod cario telyn deires ond fe ddaeth â phenglog yn ôl o Fecsico un tro ar ôl gweld y brodorion yn dathlu Gŵyl Diwrnod Y Meirw – ac mae’r benglog yn fodd bellach iddo fe gofio am anwyliaid.

John Roberts oedd yn cadeirio’r noson ac roedd e wedi cario cloch hynod o drwm o Ffordd y Gogledd. Cloch oedd hi a arferai fod ger y gegin foch yn ei fferm enedigol yn Llawr Dre yn Llangŷan ond roedd hi

wedi dod yn wreiddiol o long y Perseverans a suddodd ym Mhorth Neigwl yn yr 1880au. Ydy mae’n rhyfedd be’ sy’n ennyn atgofion ond braf oedd cael rhannu’r atgofion ag eraill a dod i adnabod ein gilydd yn well.



Diolch i Huw Evans am y defosiwn ar y dechrau ac i Mary Thomas ac Hefina Wright am y baned hyfryd.

Ysgoloriaeth Defi Fet i Ioan Mabbutt

Llongyfarchiadau mawr i Ioan Mabbutt wedi i ysgoloriaeth Defi Fet, sef y diweddar D.G.E.Davies, Llandysul, gael ei dyfarnu iddo. Mae'r ysgoloriaeth yn werth £2500 ac yn cael ei rhoi yn flynyddol i fyfyrwr milfeddygaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Sefydlwyd yr ysgoloriaeth i gofio D.G.E.Davies oedd yn fil feddyg adnabyddus iawn gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth a chyda rhodd hael gan deulu Defi Fet.

“Mae’n fraint anhygoel derbyn yr ysgoloriaeth i astudio Milfeddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rwy’n ddiolchgar iawn i’r Coleg Cymraeg ac i deulu’r diweddar DGE Davies am y cyfle,” meddai Ioan.



“Dw i wedi bod â diddordeb mewn gofalu ar ôl anifeiliaid ers o’n i’n grwt bach yn ymweld â fferm tad-cu yn Llanwrtyd,” meddai. “Dw i wedi gweld sut mae clefydon yn gallu effeithio ar anifeiliaid fferm a bywoliaeth perchnogion. “Dw i wedi bod ar brofiad gwaith yn treulio amser gyda milfeddygon i ddeall a dysgu mwy am y clefyd TB, felly rwy’n edrych ymlaen at ddatblygu fy mhrofiad gan obeithio cyfrannu at wneud gwahaniaeth yn y maes.”

“Rydym ni wrth ein bodd yn llongyfarch Ioan Mabbutt ar ennill gwobr Defi Fet eleni,” meddai’r Athro Darrell Abernethy, Pennaeth yr Ysgol Gwyddorau Milfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth. “Mae ei ymrwymiad i filfeddygaeth ac i wasanaethu cymunedau yng Nghymru yn ei wneud yn addas iawn i dderbyn yr ysgoloriaeth arbennig hon.”

Lleucu Nest yn San Steffan

Llongyfarchiadau i Lleucu Nest, fel Aelod Senedd Ieuenctid y DU dros Geredigion wedi iddi deithiodd i Lundain i gynrychioli'r sir yn y ddadl fyw flynyddol a gynhelir gan Senedd Ieuenctid y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Cadeiriwyd y sesiynau gan Lefarydd a dirprwy lefarydd Tŷ'r Cyffredin, Syr Lindsay Hoyle, a Judith Cummins.



Daeth dros 300 o bobl ifanc, rhwng 11 a 18 oed, o bob cwr o'r DU, Tiriogaethau Tramor Prydain, a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron, ynghyd yn y Senedd i drafod materion cyfredol sy'n wynebu plant a phobl ifanc.

“Roedd yn fraint cynrychioli pobl ifanc Ceredigion yn Nhŷ'r Cyffredin” meddai Nest, “Cafwyd llawer o areithiau ysbrydoledig gan bobl ifanc ledled y DU, yn hyrwyddo materion sy'n bwysig iddyn nhw a'u hetholaethau. Mae'n hanfodol bod

pobl ifanc yn cael llwyfan i godi eu llais a chyfleoedd i gymryd rhan yn y broses wleidyddol, ac roedd hwn yn gyfle gwych i ddysgu mwy am waith Aelodau Seneddol a llywodraeth y DU.”

“Rydym yn hynod falch o Lleucu am iddi roi llais i bobl ifanc a materion lleol. Sicraodd Lleucu fod pobl ifanc Ceredigion yn cael llwyfan, ac mae cyfleoedd fel hyn yn sicrhau bod cyfraniad pobl ifanc yn cael ei glywed ar lefel genedlaethol.” Meddai y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod y Cabinet yng Ngheredigion dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

Gellir gwyllo'r dadleuon yn ôl ar ‘Parliament TV’

Clwb Sul Capel y Morfa



Yn ystod mis Tachwedd buom yn cyflwyno storïau sydd yn ein harwain at. ein gwasanaeth Nadolig ar ddydd Sul, Rhagfyr 14 - sef Creu'r Byd, Goleuni yn y tywyllwch a stori Gardd Eden. Yn dilyn penderfyniad Efa i beidio â gwrando ar Dduw a thorri yr unig reol a osodwyd, buom yn ystyried dewisiadau da a drwg yn ein byd cyfoes a gofynnwyd i'r plant greu poster. Roedd materion amgylchedd, rhyfeloedd a dioddefaint oherwydd anallu i rannu adnoddau ein byd yn deg yn amlwg iawn. Byddwn yn mynd ymlaen at broffwydoliaeth

Eseia ac at ddyfodiad Iesu, Goleuni'r Byd.

Bydd casgliadau Gwasanaethau'r Nadolig yn mynd tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol





Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol



Cinio Bara a Chaws mis Rhagfyr yn Bethel, Stryd y Popty ddydd Llun, 1 Rhagfyr rhwng 12.00 a 1.30pm.

Cinio Bara a Chaws mis Ionawr yng Nghanolfan Sant Paul, ddydd Llun, 5 Ionawr rhwng 12.00 a 1.30pm.

Croeso cynnes i bawb – Dewch i gefnogi!

Nadolig ym Methlehem

Mae maer Bethlehem wedi cyhoeddi eu bod nhw yn dathlu Nadolig yn y ddinas eleni, roedd dathliadau wedi eu hatal ers dwy flynedd oherwydd y rhyfel yn Gaza. Yr eironi ydi fod y mur y mae llywodraeth Israel wedi ei godi i wahanu Israeliaid a Phalestiniaid bron yn amgylchynu dinas Bethlehem. Dileu y mur rhwng Duw a dyn oedd canlyniad mawr y geni ym Methlehem, daeth Duw ei hun i'r byd, yng ngenedigaeth Iesu.

Mae Ioan yn disgrifio'r geni mewn termau diwinyddol. Daeth yn Gair yn gnawd. Y Gair yw cyfarchiad Duw a

pherthynas Duw efo'r cread. Ar ei Air, yn ôl Genesis y mae'r cread wedi dod i fodolaeth. Dywedodd Duw "Bydded goleuni a goleuni a fu" a thrwy'r Hen Destament y mae Duw yn galw ar ei broffwydi i ddweud "Fe hyn y dywed yr Arglwydd..." Ond ym Methlehem, mae'r Gair, oedd yn bod yn y dechreuad yn gwisgo cnawd, yn dod i fyw yn ein plith. Trwyddo mae'r mur oedd rhwng Duw a'i bobl wedi ei chwalu. Trwy ei gariad aberthol yn dod i'n byd, a gwneud ei hun yn agored i anaf a gwrthodiad roedd yn mynnu ein gwneud ni'n agos ato.

Ond o gredu yn yr un sydd dymchwel muriau, mae na alwad wedyn ar i ninnau ddymchwel muriau. Yr oedd y Crist yn tynnu pobl ynghyd, boed hynny drwy ddeuddeg disgybl gwahanol iawn i'w gilydd, neu grŵp o ferched – rhai yn gyfoethog, eraill yn dlawd, rhai wedi eu hiachau eraill wedi profi maddeuant, neu boed drwy greu cyfeillgarwch gyda publicanod a phechaduriaid. Trwy hynny mae'n gosod yr un cyfrifoldeb ar ei ddilynwyr, i greu eglwys a chymuned groesawgar i



Llun Garry Walsh

bawb, un sydd yn chwalu muriau. Mae gofyn felly i ni chwalu muriau rhagfarnau, muriau rhyngom a'r dieithryn neu'r alltud, muriau rhyngom a'r gwrthodedig yn ein cymdeithas, a dyna pam fod muriau uchel o gwmpas Bethlehem mor eironig ar wyl y geni.



Llun : Jaber Jihad Badwan

Erbyn hyn mae'r mur yna yn cynrychioli llawer iawn mwy na gwahanu, trodd yn fur casineb a gwrthdaro yn Gaza. Herod oedd adeiladydd a cheidwad y mur adeg geni Crist, ac fe laddodd y plant ym Methlehem er mwyn diogelu'r mur. Bellach mae geiriau Jeremeia'r proffwyd yn gri y rhai hynny sydd dioddef oherwydd muriau a chasineb ein hoes ni.

“Clywyd llef yn Rama,
wylofain a galaru dwys;
Rachel yn wylo am ei phlant,
ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy.”

Mae'r wylofain i'w glywed yn Gaza ac yn Wcraïn a chymaint o wledydd eraill o hyd. Ond y mae mur yn achos galaru dwys, ac wrth i wleidyddiaeth casineb a beio'r arall ddod yn fwy a mwy amlwg rhaid i bobl Crist fynnu fod y muriau yn cael eu dymchwel. Daeth y Gair yn gnawd, boed i'r Gair barhau i fod yn gnawd yn y ffordd rydym ni yn byw.

STEVE EAVES

a Rhai Pobol



CANOLFAN ARAD GOCH

31 Ionawr am 7.30 yh

Elw at Cymorth Meddygol i Balesteiniaid /MAP

Tocynnau ar gael o Ganolfan Arad Goch neu Siop Inc

PRIS TOCYNNAU £15 (Arian parod yn unig)



Anrhydeddu Bethan Bryn

Wel dwi erioed wedi bod yn aelod o fflachfob o'r blaen! Ond wedi gwers sydyn gan Betsan Powys a Branwen Cennard, fe ddysgodd ryw 30 ohonom godi a dod ar y llwyfan yn flêr tra'n canu gosodiad arwrol Bethan Bryn brynhawn Sadwrn ar lwyfan yr Ŵyl Cerdd Dant.

Y noson cynt roedd yn rhaid ymarfer y cyfan am y tro cyntaf - a diolch byth am dechnoleg WhatsApp a Bethan Antur a fu yn ein haddysgu o bell. Braint oedd cael bod yn rhan o gôr buddugol Pantycelyn yng Ngŵyl



Cerdd Dant Aberystwyth yn 1983. Yn bersonol, doeddwn i erioed wedi canu cerdd dant o'r blaen ond fe ges i fy hudo gan ein hathrawes Bethan Bryn – cwbl ddi-ffws ac yn dweud ei dweud yn aml!. Ond roedden ni gyd yn gwerthfawrogi hynny ac roedd ei gosodiad o englynion cyfarch Alan Llwyd i Saunders Lewis yn ysgubol. Chymrodd hi fawr ddim i ailddysgu'r cyfan gan gystal y gosodiad a chredwch chi fi roedd y geiriau wedi'u naddu yn ein cof – fentren ni ddim mynd ar y llwyfan yn meimo!!!

Anodd credu bod y fythol Bethan Bryn yn 80 a'r nos Wener cyn yr ŵyl fe'i hudwyd rywsut i gyfarfod â chôr 1983 ym Medina. Wel am sioc (braf gobeithio!) i rywun cwbl ddi-ffws ond roedd yn rhaid i ni gyd, rywsut(!), gadw perfformiad y fflachfob ddydd Sadwrn yn gyfrinach!!

Wel dwi ddim wedi cael cystal penwythnos ers tro a braf ailymuno â chyd-fyfyrwyr – rhai nad oeddwn wedi’u gweld ers dros 40 mlynedd. Ond brafiach fyth oedd anrhydeddu yr un na sydd fyth yn dymuno yr un clod na ffws – er gwybodaeth dyw hi ddim yn cadw yr un gosodiad ond diolch byth bod ambell wiwer yn ein plith i atgyfodi rhai o’r gosodiadau hynod gofiadawy. Pen blwydd hapus Bethan a boed i’r gosodiadau gwych ‘na barhau i lifo o Nant Eos!

Sara

Awdl gyfarch yr Archdderwydd Mererid i Bethan Bryn

(42 o linellau i nodi 42 mlynedd ers llwyddiant Côr Neuadd Pantycelyn yng Ngŵyl Cerdd Dant Aberystwyth yn 1983)

Iaith ein bro yw Bethan Bryn;
i deulu tannau’r delyn
hi alaw ein cystrawen,
hi yw cainc ein Cymraeg hen,
hi riain pob cytsain cŵl,
hi obaith ... a hi drwbwl;
hi firain pob llafariad,
hi yw’r wwws yn ein parhad –
yn y mŵd o hyd y mae
ein chwaer i fentro chwarae,
mentro dawnio nos a dydd –
mae’n awen rhythmau newydd;
yna i diwn tannau’n dyner
o’r cyfnos agos mae’r sêr
yn loetran, stelcian nes daw’n
ofalus y gyfalaw;
seiniau cerdd-dant yr antur,
awen pyls direidi pur
sydd yng ngwên ei hawen hi –
rywfodd mae’r nodau’n grwfi –



Llyn Y Lolfa


mae hud Gareth yn Bethan
a chwa Aled yn ei chân,
llinach y mans a Nansi
yn ddawns yn ei bysedd hi,
Acker Bilc ei chainc a'i bît,
Y ddiatal o with-it.

Cans bob hyn a hyn rhaid ysgwyd hanes
o'i golosg llwyd, a rhaid wrth broffwydes,
un ddaw o'r sêr a hyder cenhades,
dod i'n dihunio â dawn dewines,
a'n harwain â llaw athrawes – yn daer,
un chwaraewr aur ag awch arwres;
ac o hyn, lwch llwyd yr hen farwydos,
i Bantycelyn deryn diaros
ei adenydd ddaeth i'n haelwyd unnos
i'n deffro, hil eiddil, o'n trwmgwsg diddos
a'n rhwygo o'n cysur agos. Ffarwel
ein huno tawel! Daeth gwawr Nant Eos!
Anadlodd ein cenhedlaeth
yn fyw a rhoi inni faeth –
diolch am bopeth Bethan,
hwn yw gair diwedd y gân.

Naw Llith a Charolau yng nghwmni Côr ABC

Nos Sul 14 Rhagfyr am 7.30

Yn Eglwys Llanbadarn Fawr



Croeso cynnes i bawb

Casgliad tuag at elusen Popham

Teyrnged Robin i’w fam - Mona – Rhagfyr 2025

Ganed Catherine Mona Jones (‘Mona’) ar 19 Awst 1929 ym Menrhosgarnedd, Bangor. Un o Feirionnydd oedd Nain, ac un o Fôn oedd Taid, felly nid yw’n syndod mai ‘Meirion’ a ‘Mona’ oedd enwau eu dau blentyn. Pan oedd Mami yn chwe blwydd oed, symudodd y teulu efo gwaith Taid i Landegfan, Sir Fôn, ac aeth Mami i Ysgol y Borth (Porthaethwy) ac yna i Ysgol Ramadeg Biwmares.

Cyfarfu â ’nhad, Evan Wyn Bowen wedyn yng Nghlwb Ffermwyr Ifainc Penmynydd. Mi briodon nhw ym 1953 ar ôl hyfforddi i fod yn athrawon, a symudon nhw i fyw at fodryb ’nhad yn Lerpwl (Aunty Mary). Ganwyd John wedyn ym 1954 a minnau ym 1957.



Byddem ni’n pedwar bob gwyliau’r ysgol yn ymweld â’r teulu a ffrindiau yn Sir Fôn. Roedd y cysylltiadau hyn yn bwysig i Mami ac mi weithiodd yn galed i’w cadw dros y blynyddoedd. Roedd hefyd ganddi hi a Dad gylch eang o ffrindiau yn Lerpwl, gan mai dynes gymdeithasol oedd Mami, a phobl yn bwysig iddi. Roedd ei lletygarwch yn enwog, ac roedd yn ffrind a chymydoges dda i lawer. Byddai hi a Dad yn ceisio eu gorau i wneud y peth iawn i helpu ac i ofalu am bobl bob amser.

Ar ôl 54 blynedd o fywyd teuluol hapus dros ben, taflwyd cysgod du drosom pan gafodd Dad ddiagnosis o ganser terfynol ddiwedd

2007. Lloriodd hynna Mami, ac roedd ei hofn wrth feddwl am ei golli fo wedi ei dychryn hi yn arw. Er mor llethol o anodd a thrist oedd y profiad i mi, dwi'n ddiolchgar tu hwnt i Dduw am fedru bod yno yn Lerpwl, yn gefn i'r ddau ohonynt.

Rhai misoedd ar ôl i 'nhad farw, penderfynodd Mami symud i Aberystwyth i fod yn nes ataf i a Pat, ac mi laniodd yn 32 Gerddi Rheidol, Trefechan, jest mewn pryd i ddathlu ei phen blwydd yn 80. Ac mi ddychwelodd ei hysbryd gyda brwdfrydedd! Pleser mawr i mi oedd ei gweld hi yn ail afael mewn capel a chymdeithasau, a dechrau gwneud ffrindiau a chymdogion o'r newydd. Dwi'n ddiolchgar eto i'r Tad nefol fod hynny wedi bod yn bosibl iddi. Ac felly roedd, nes i henaint ddechrau gwir ddweud arni. Byddai hi bob amser yn ddiolchgar am yr hyn a wnâi Pat a minnau drosti. Ond roedd hi'n anodd ofnadwy gennyf weld fy Mam annwyl, gref yn dirywio, a chanwaith waeth i mi, pan alwodd Duw Pat ato'i hun dair blynedd yn ôl.

Yn y diwedd roedd rhaid i Mami gael gofal mewn cartre, a threuliodd y 16 mis diwethaf yn Henllan, Llandysul. Diolch, Staff Cartre Henllan, am eich gofal cu ohoni, yn arbennig ar y noson olaf.

Dysgais ddwy Wers Bywyd gan esiampl Mami – Cariad a Dyletswydd, dwy rinwedd a ddysgodd hithau o'i magwraeth Gristnogol, ar adeg efallai pan oedd llai o hunanoldeb mewn Cymdeithas. Estynnwyd y ddwy i mi drwy gydol fy mywyd ganddi, yn arbennig wrth iddi dderbyn fy ffordd amgen i o fyw. Ond roedd derbyn Pat wedi dwyn bendith fawr iawn iddi yn y diwedd, wrth iddi ddeall a derbyn cymaint roedd Pat yn ei wneud drosti yn ei heiddilwch.

Roedd henaint wedi mynd yn flinderus iddi erbyn y diwedd, ond prin byddai hi'n cwyno. Byddai'n ceisio gystal ag y medrai i fod yn bositif a diolchgar. Ac o'r diwedd, cymerodd y Tad Nefol hi ato, ar ôl bywyd llawn, da, cariadus, a gofalgar. Diolch i'r Arglwydd Hollalluog, ffynhonnell pob cariad, amdani – 'Mami Orau'r Byd'.
Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

Croeso i Marian Delyth

Mae'n braf croesawu Marian Delyth fel aelod o Gapel y Morfa, neu efallai y dylid dweud croeso nôl.

“Mae hyn fel cylch cyfan,” meddai Marian, “gan mod i'n cofio dod i Siloh yn blentyn gyda nhad cu Dan Tibbott i'r Ysgol Sul yn Seilo. Roedd hi'n Ysgol Sul fywiog amrywiol iawn. Rydw i'n cofio bod yn nosbarth Mrs R.E. Griffith a gwneud mwy o waith crefft gyda hi nag oeddwn i wedi wneud yn yr ysgol gynradd, roeddwn wrth fy modd.”

Mae ganddi atgofion da am basiantau Nadolig mawr Siloh. Roeddent yn gynyrchiadau mawr gyda llu mawr o blant a phobl yn cymryd rhan. Roedd na goluro mawr a Mr Job yn gyfrifol am oleuo'r cyfan. Mae'r cynnwrf oedd yn y capel bob Nadolig yn dal yn y cof.



Digwyddiad mawr arall i blant yr Ysgol Sul oedd mynd i'r capel i gymryd rhannau dechreuol y gwasanaeth. Mae'n cofio maint y lle yn mynd a'i gwynt, heb sôn am y gwagedd yn eu cotiau ffwr a'u hetiau mawrion, ac mae cyfeilio crefftus Charles Clements ar yr organ yn sain oedd yn gwneud cryn argraff hefyd.

Pan yn blentyn roedd hi'n mynd i'r capel gyda'i rhieni ym Mlaen plwyf ond yn dod i Seilo i'r Ysgol Sul, yna pan ddaeth yn aelod ymuno wedyn ym Mlaen plwyf. Ond tristwch oedd gorfod dod i'r penderfyniad i gau yr achos ym Mlaen plwyf.



“Yr oedd yn anorfod ar un ystyr,” meddai Marian, “roedd llai a llai ohonom a phawb yn oedrannus a’r oedfeun yn anaml. Ar ben hynny roedd yna gost sylweddol ar yr adeilad, y ffenestri wedi pydru a tho’r festri yn gollwng, a doedd fawr o obaith codi’r arian oedd ei angen. Ond roedd hi hefyd yn anodd cyfiawnhau cadw adeilad mawr fel yna ar gyfer oedfa ryw unwaith y mis. Felly penderfynwyd dod a’r achos i ben.”

Trwy hynny daeth y cylch yn gyfan. Daeth Marian yn aelod yn y Morfa a chael cwmni rhai oedd yn Ysgol Sul Seilo gyda hi ers talwm. Croeso atom ni Marian a phob dymuniad da.

Gweddï ar gyfer yr Adfent a’r Nadolig

Tywysog Tangnefedd,
doedd gennyf ddim lle diogel i orffwys pan oeddet ti’n fabi.

Gweddïwn i ti heddiw dros bob plentyn sy’n cael ei orfodi i ffoi rhag bob trais.

Rydyn ni’n dod â theuluoedd a chymunedau sy’n dioddef ansefydlogrwydd ac ofn ger dy fron.

Yn ystod y tymor hwn o ddisgwyliadau gobeithio, gweddïwn dros y rhai sydd ddim yn gwybod beth a ddaw yfory.

Heria ni, Arglwydd, i fyw yn ôl dy alwad i geisio byw mewn heddwch.

Rho derfyn ar yr holl wrthdaro a’n hysbrydoli i weithredu gyda chyfiawnder a chariad.

Amen

(Pecyn Nadolig Cymorth Cristnogol, oddi ar wefan Cymorth Cristnogol)



Suliau Rhagfyr a Ionawr

Rhagfyr

Blaenor y mis: Deian Creunant

7 Rhagfyr – Eifion Roberts (Cymun)

14 Rhagfyr – Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid

21 Rhagfyr – Eifion Roberts

28 Rhagfyr – Rhidian Griffiths

Blodau

7 Rhagfyr – Jean Davies a Siân Donnelly

14 Rhagfyr – Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul

21 Rhagfyr – Yr Ysgol Sul

28 Rhagfyr – Yr Ysgol Sul

Cynhelir oedfa bore'r Nadolig am 10.00-10.30 yn y Morfa

Ionawr 2026

Blaenor y Mis: Eleri Davies

4 Ionawr – Eifion Roberts (Cymun)

11 Ionawr – John Roberts

18 Ionawr – Eifion Roberts

25 Ionawr – John Tudno Williams

Blodau

4 Ionawr – Eleri Davies

11 Ionawr – Beryl Roberts

18 Ionawr – Ann Hill a Wendy Jones

25 Ionawr – Rhidian a Catherine Griffiths

Tyrd gyda ni ar ein taith

Grëwr yr enfys,
tyrd drwy ddrysau caeedig
ein hemosiynau,
ein meddyliau a'n dychymyg;
tyrd i gerdded ochr yn ochr â ni,
tyrd atom yn ein gwaith a'n gweddi,
tyrd i'n cyfarfodydd a'n cynghorau,
tyrd i'n galw ni wrth ein henwau,
i'n galw i bererindod.
Iachäwr clwyfedig,
allan o'n diffyg undod
gwna ni'n aelodau ynghyd;
allan o boen ein rhaniadau
gad i ni weld dy ogoniant;
galw ni o brysurdeb y presennol
i greu cymuned i'r dyfodol.
Ysbryd undod,
heria ein rhagdybiaethau,
galluoga ni i dyfu mewn cariad a deall;
bydd dy gwmni inni ar ein taith,
fel yr awn allan i'th fyd yn hyderus
fel creadigaeth newydd –
un corff newydd ynot ti,
er mwyn ir byd gredu.

Amen

(Kate McIlhagga, Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

Golygyddion

John a Sara oedd golygyddion y rhifyn yma o Perthyn. Ni fydd rhifyn ym mis Ionawr ond cyfraniadau mis Chwefror i law erbyn **23 Ionawr**, os gwelwch yn dda, i gwenancreunant@gmail.com a nestgwilym@gmail.com





Y MUNWCH GYDA NI

Cyngerdd Nadolig

Aelwyd Pantycelyn

NOS WENER, SED O RAGFYR

CAPEL Y MORFA, ABERYSTWYTH, 19:00YH

DRYSAU'N AGOR AM 18:30YH

£10 - OEDOLION

£5 - AELODAU UMCA & PLANT

BYDD YR HOLL ELW YN MYND TUAG AT AELWYD PANTYCELYN

Dathlu'r Nadolig yn y Morfa

Dydd Sul Tachwedd 30 - Sul cyntaf yr Adfent - Llanllanast y Nadolig
yn ystod y Clwb Sul

Dydd Sul, Rhagfyr 14 am 10 o'r gloch

Gwasanaeth teulu o dan arweiniad y Clwb Sul a'r Ieuenctid - ***Golau Iesu sy'n fuddugol***

Parti Nadolig yn dilyn y Gwasanaeth yn y Festri

Rhagfyr 25 - Bore Nadolig am 10 o'r gloch

Gwasanaeth i deuluoedd a phawb o bob oed. Bydd cyfle i'r plant ddangos eu anrhegion.

Cofiwch hefyd am **Noson Garolau'r Myfyrwyr** yng Nghapel y Morfa ar nos Wener, **Rhagfyr 5ed** Dewch i gefnogi.

